# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd R Williams**

**Ward: Pencoed a Phen-prysg**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn **1 Mai 2023 i 30 Ebrill 2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn 2008, 2012 a 2022.

Rwyf wedi ymgymryd â sawl rôl o fewn y Cyngor, ac wedi fy mhenodi i'r pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Rheoli Datblygiad
Pwyllgor Craffu
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 31 o atgyfeiriadau/materion "Rhoi Gwybod" yn ffurfiol gyda'r Cyngor, ynghyd â materion anffurfiol eraill a ddaeth i'm sylw.

Cyfanswm nifer y cyfarfodydd a fynychwyd/gweithiwyd o gartref yw 86 a 2 gymhorthfa. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, ac wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwy'n parhau i ymgyrchu dros amnewid pont reilffordd Pen-prysg, ac adnewyddu'r ysgolion uwchradd a chynradd i sicrhau bod plant Pencoed yn dysgu mewn cyfleusterau modern.

Mynychais un cyfarfod o Bwyllgor Clwb Rygbi Pencoed, ynghylch y cyfleusterau sydd ar gael.

Rwy'n gweithio'n agos gyda Chyngor Cymuned Llangrallo er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y pentref.

Ymhlith y materion a godwyd mae gwasanaethau bysus gwael, Clymog Japan, a phalmentydd peryglus.

Rwyf hefyd wedi cysylltu â Chyngor Tref Pencoed, ac rwyf wedi bod yn aelod ohono ers 2004.

Nid yw nifer y cyfarfodydd a fynychwyd uchod yn cynnwys 30 o gyfarfodydd gyda Chyngor Tref Pencoed.

**<u>Gweithgareddau Eraill</u>**

Mynychais gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Gyngor Tref Pencoed er mwyn trafod y materion parcio yn ysgol gynradd Pencoed, a godwyd gan drigolion sy'n byw yn agos at yr ysgol.

Mae materion eraill yn cynnwys mabwysiadu ffyrdd a thyllau yn y ffyrdd.

**Y Cynghorydd R Williams:** **Dyddiad: 19 Mehefin 2024**